



At bob Pennaeth  
Ysgolion Cynradd ac Uwchradd

**Gofynnwch am:**  
**Please ask for:** Claire Mitchell-Bowen  
**Rhif No / Tel No:** 01443 680638  
**E-bost / e-mail:** Claire.Mitchell@rctcbc.gov.uk

Fy Nghyf: CMB/WG 17-18 Eich Cyf:  
My Ref: Your Ref:

Dyddiad:  
Date: 12 Mehefin 2017

Annwyl Gydweithiwr,

### **Grant Gwisg Ysgol** **Llywodraeth Cymru 2017/18**

Rwyf yn falch i gadarnhau y bydd y Grant Gwisg Ysgol yn parhau heb newid yn 2017/18, sef £105 ar gyfer pob plentyn cymwys.

Mae'r cynllun wedi'i anelu at ddisgyblion blwyddyn 6 yn benodol sy'n trosglwyddo i'r ysgol uwchradd ac sy'n hawlio prydau ysgol am ddim.

O'r 3 Gorffennaf 2017 a hyd at 31 Ionawr 2018, bydd yr Adran Gyllid yn anfon e-bost o dro i dro at ysgolion yn cadarnhau'r disgyblion sydd â hawl i dderbyn Prydau Ysgol am Ddim sy'n dechrau ym mlwyddyn 7 yn yr ysgol uwchradd. Dim ond ar ôl derbyn cadarnhad y gall **ysgolion uwchradd ddyfarnu'r grant o £105** ar ffurf siec, pecyn gwisg ysgol neu daleb ar gyfer cyflenwr gwisg ysgol benodol.

**Does dim angen i rieni gyflwyno cais i dderbyn y grant yma, dim ond bod eu plentyn ar y gofrestr Prydau Ysgol am Ddim.** Bydd y meini prawf ar gyfer yr hawl i dderbyn Prydau Ysgol am Ddim yn aros yr un peth ag yn y gorffennol.

### **Hawl i gael Prydau Ysgol am Ddim**

Mae prydau ysgol am ddim ar gael i'r plant hynny mae'u rhieni New warcheidwaid yn gallu profi eu bod nhw'n hawlio un o'r budd-daliadau canlynol ar hyn o bryd:

- Credyd Treth i Blant – lle bod cyfanswm yr incwm blynyddol heb fod dros £16,190
- Cymhorthdal Incwm (gyda chyfrifoldeb dros blant)
- Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm (gyda chyfrifoldeb dros blant)
- Cymorth o dan ran VI Deddf Mewnfudo a Lloches 1999
- Credyd Pensiwn y Wladwriaeth (Elfen Gwarant)
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (yn seiliedig ar incwm)
- Credyd Cynhwysol



- Taliadau Credyd Treth Gwaith ychwanegol – y taliadau ychwanegol y gall unigolyn eu derbyn am bedair wythnos yn ychwanegol ar ôl i'w hawl i dderbyn Credyd Treth Gwaith ddod i ben.

Mae disgyblion sy'n derbyn Cymhorthdal Incwm a Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm hefyd yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.

Gallent wneud cais ar-lein drwy wefan y Cyngor [www.rctcbc.gov.uk/CinioYsgolAmDdim](http://www.rctcbc.gov.uk/CinioYsgolAmDdim).

Fel arall, os ydyn nhw yn derbyn Budd-dal Tai neu Fudd-dal Treth y Cyngor, gallent gyflwyno cais dros y ffôn trwy gysylltu â 01443 680363.

Cysylltwch â Claire Mitchell-Bowen ar 01443 680638 am ragor o wybodaeth sy'n ymwneud â'r Grant Gwisg Ysgol.

Yn gywir,

Liz Randall  
**Uwch Gyfrifydd - Rheoli Ysgolion yn Lleol**